Sub

5.30

# DUW

YN

# AMDDIFFYNFA I'W BOBL.

**Can Newydd ar Hen Fesur,**


GAN PETER JONES,

LIVERPOOL.


---

*Argraffiad Newydd.*

---


BETHESDA:
ARGRAFFWYD GAN R. JONES.

1861.

DUW

# YN AMDDIFFYNFA I'W BOBL.

Mi gynygiaf gynganeddu
Ar hyd y nos:
Ond nid ysgafn fydd fy nghanu
Ar hyd y nos:
Mawl i'r Iôn bendigaid seiniaf,
A'i weithredoedd a fynegaf;
Ar ei wyrthiau gynt myfyriaf
Ar hyd y nos.

Duw fu'n noddfa glud i'w eiddo Ps. 90. 1.
Ar hyd y nos;
Ni oddefai ei niweidio Ps. 105. 14.
Ar hyd y nos:
Ond o'u plegid, pan y digiai, Ps. 106. 14.
Gwych freninoedd a geryddai:
Ei anwylion amddiffynai
Ar hyd y nos.

Abram a'i hyfforddus weision,
Ar hyd y nos,
A darawent eu gelynion Gen. 14. 15.
Ar hyd y nos:
Fe arfogai ei ddewr fyddin,
Ac ymlidiai 'r pedwar brenin; Gen. 14. 16.
Mynodd Lot o'u gafael erwin
Ar hyd y nos.

Gyda Lot angelion drigynt — Gen. 19. 2, 3.
Ar hyd y nos:
Cerdd o Sodom, brysia, meddynt
Ar hyd y nos:
Yn y borau yntau 'n ddiddig,
Ffodd rhag distryw tân llosgedig,
Er ei fod yn lled hwyrfrydig, — Gen. 19. 16.
Ar hyd y nos.

Jacob fu mewn mangre unig
Ar hyd y nos;
Cysgai yno a'i ben ar gerig — Gen. 28. 11.
Ar hyd y nos:
Yn ei freuddwyd ysgol gwelai,
Nef a daear hon a unai, — Gen. 28. 12.
A'r angylion a'i tramwyai
Ar hyd y nos.

Gwelai yno drefn rhagluniaeth
Ar hyd y nos,
A dirgelion iachawdwriaeth — 1 Tim. 3. 16.
Ar hyd y nos:
Trwy 'r Cyfryngwr gwelai gymod — Esa. 42. 21.
Rhwng y nef a'r ddaear isod; — Ps. 85. 10, 11.
Parai hyn i Jacob syndod
Ar hyd y nos.

Meddai ef, Pa le gorweddais
Ar hyd y nos!
Pa ryfeddod fawr a welais
Ar hyd y nos!
Nid oes yma ond ty Duw'r lluoedd; — Gen. 28. 17.
Ië, dyma borth y nefoedd:
Bum yn Bethel a'i gysegroedd
Ar hyd y nos.

Fe fu Duw 'n ceryddu Laban — Gen. 31. 24.
Ar hyd y nos;
Drwg wrth Jacob ni chai yngan
Ar hyd y nos;
Er ei fod yn llawn dygasedd,
Fe ataliwyd ei gynddaredd; — Gen. 31. 42.
Cyd letyent mewn tangnefedd — Gen. 31. 54.
Ar hyd y nos.

Jacob fu ei hun yn Peniel Gen. 32. 24.
Ar hyd y nos:
Bu mewn ymdrech gyda'r angel
Ar hyd y nos:
Ei frawd llidiog nid oedd neppell:
Cofia hwn ei dwyll a'i ddichell;
Yntau lechai yn ei gastell
Ar hyd y nos.

Ofnai 'n fawr gyfarfod Esau Gen. 32. 11.
Ar hyd y nos:
Bu'n ymdreulio mewn gweddïau
Ar hyd y nos:
Am y fendith taer ymbiliodd, Hos. 12 4.
Felly enw newydd cafodd: Gen. 32. 28.
Fel tywysog yr ymdrechodd
Ar hyd y nos.

Pharaoh unwaith a freuddwydïai Gen. 41. 1.
Ar hyd y nos:
Felly Duw am Joseph gofiai
Ar hyd y nos:
Cyrchwyd hwn o'i flaen yn union, Gen. 41. 14.
A deonglodd ei freuddwydion, Ps. 105. 17, 18.
Wedi bod a'i draed mewn cyffion
Ar hyd y nos.

Cafodd Israel weledigaeth Gen. 46. 2.
Ar hyd y nos;
Ac addewid o gadwraeth
Ar hyd y nos:
Ar ei ymdaith yn Beerseba,
Dos i'r Aipht, medd Duw, nac ofna; Gen. 46. 3, 4
Joseph yno a'th gysura
Ar hyd y nos.

Pan fu'r Aipht mewn blin anghaffael
Ar hyd y nos,
Gwaed oen pasg a noddai'r Israel Exod. 12. 13.
Ar hyd y nos:
Er fod angel mewn gwŷn diriaid
Yn lladd cynfeib yr holl Aiphtiaid,
Ni chyffyrddodd â'r Hebreaid Heb. 11. 28.
Ar hyd y nos.

Teithiodd Israel o Rameses Exod. 12. 37.
Ar hyd y nos;
Ceisiai 'r Aiphtiaid eu gorddiwes Exod. 14. 8.
Ar hyd y nos:
Pharaoh oedd yn hyll fygylu, Exod. 15. 9.
Ond ni allai atynt nesu; Exod. 14. 19, 20.
Safai 'r golofn rhwng y ddaulu
Ar hyd y nos.

Blin dywyllwch a gai 'r Aiphtiaid Exod. 14. 20.
Ar hyd y nos,
Ond goleuni gai 'r Hebreaid
Ar hyd y nos:
Trwy 'r dyfnderau aethant rhagddynt;
Duw balmantodd ffordd sech iddynt: Ex. 14. 22.
Holltai 'r môr trwy gryf ddwyreinwynt Ex. 14. 21.
Ar hyd y nos.

Safai 'r dyfroedd yn bentyrau Ex. 15. 8.
Ar hyd y nos,
Hwythau aent rhwng dyfrllyd furiau Ex. 14. 22.
Ar hyd y nos:
A phan deithient anial *digrain, **Solitary.*
Rhag bwysfilod a phob damwain,
Caent y golofn dân i'w harwain Ex. 13. 22.
Ar hyd y nos.

Ymhlith seirff gwenwynig anian Num. 21. 6.
Ar hyd y nos,
Da oedd edrych tua'r drostan Num. 21. 8.
Ar hyd y nos;
Oddi ar hono deilliai iechyd,
Er brathiadau 'r seirff gwenwynllyd: Num. 21. 9.
Gwelai pawb y sarff bres danllyd
Ar hyd y nos.

Duw ddyrysai wersyll Midian Barn. 7. 21.
Ar hyd y nos,
Yn eu plith bu blin gyflafan
Ar hyd y nos;
Pan gyd floeddiodd Israel ffyddlon,
"Cleddau 'r Arglwydd a Gedëon," Barn. 7. 20.
Lladd eu gilydd wnai 'r gelynion Barn. 7. 22.
Ar hyd y nos.

Ofnai 'r Syriaid yn eu gwersyll
Ar hyd y nos:
Tybient glywed rhyw drwst erchyll 2 Bren. 7. 6.
Ar hyd y nos,
Am eu heinioes diangasant,
Eu meddianau oll adawsant;
O wlad Israel mewn brys ffoisant 2 Bren. 7. 7.
Ar hyd y nos.

Pan oedd llu Senach'rib greulon
Ar hyd y nos,
Yn amgylchu muriau Sïon
Ar hyd y nos;
Duw anfonodd angel canaid,
Lladdodd hwn mewn digter tanbaid
Bron ddau canmil o'r Assyriaid, 2 Bren. 19. 35.
Ar hyd y nos.

Gwnai Belsazzar wledd ryfygus Dan. 5. 1—4.
Ar hyd y nos;
Ond i'r ddinas fe ddaeth Cyrus
Ar hyd y nos:
Lladdai hwn y brenin creulon; Dan. 5. 30.
Duw a gofiai yr Iuddewon,
A gwaredwr ddug i Sïon Esa. 59. 20.
Ar hyd y nos.

Pan oedd Haman mewn llid bradus
Ar hyd y nos,
Ciliai cwsg hen Ahasferus Esther 6. 1.
Ar hyd y nos:
Mordecai a ga'dd fawreddau, Esther 6. 11.
Cafwyd hyd i'w gymwynasau
Wedi chwilio 'r llyfr croniclau Esther 6. 2.
Ar hyd y nos.

Duw fu'n blaid i'w ffyddlon blentyn
Ar hyd y nos:
Bu 'n dattroi bwriadau 'r gelyn
Ar hyd y nos;
Yn y boreu crogwyd Haman
Ar y pren godasai 'i hunan: Esther 7. 9, 10.
Gweithiai Duw yn groes i'w amcan
Ar hyd y nos.

Er rhoi Daniel yn ffau 'r llewod
Ar hyd y nos,
Angel Duw fu iddo 'n gysgod Dan. 6. 21.
Ar hyd y nos:
Ni chai dant un llew ei ddrygu,
Huno wnai a'r rhai'n o'i ddeutu,
Er i'r brenin fethu cysgu Dan. 6. 18.
Ar hyd y nos.

Pwy a geir yn ofni pechu
Ar hyd y nos:
Ac yn gwrando ar lais yr Iesu Esa. 50. 10.
Ar hyd y nos:
Er yn rhodio mewn tywyllwch,
Heb un llewyrch, yn llawn tristwch,
Ymddirieded yn Nuw'r heddwch
Ar hyd y nos.

Israel oll i'r lan draw aethant Ex. 14. 30,
Ar hyd y nos.
Trwy berfeddion môr treiddiasant
Ar hyd y nos:
A phan deithient anial digrain,
Rhag bwystfilod a phob damwain, Nehem. 9. 12.
Caent y golofn dân i'w harwain
Ar hyd y nos.

I fugeiliaid oedd yn gwylio
Ar hyd y nos,
Fe fynegwyd geni 'r Siloh Luc 2. 11,
Ar hyd y nos;
Wedi clywed y newyddion
A gyhoeddid gan angylion,
Tua Bethle'm aent yn union Luc 2. 15.
Ar hyd y nos.

Fe ddaeth dynion ato o'r dwyrain Mat. 2. I.
Ar hyd y nos,
Goleu seren gaent i'w harwain
Ar hyd y nos;
Ond trwy fyn'd yn rhy ucheldrem,
Cam gyfeirient i Gaersalem,
Aent o'r diwedd tua Bethle'm Mat. 2. 8.
Ar hyd y nos.

Rhag i Herod ladd yr Iesu
Ar hyd y nos,
Trefnwyd ffordd i'w ddyogelu
Ar hyd y nos;
Mair a Joseph rhybudd gawsant,
A'r mab bychan gymerasant,
Gydag ef i'r Aipht ciliasant Mat. 2. 14.
Ar hyd y nos.

Cuddiai Duw yr Oen bendigaid
Ar hyd y nos,
Rhag ei rwygo gan y bleiddiaid
Ar hyd y nos;
Ond ca'dd Rahel dristyd calon
A thost alar am ei meibion,
Llwyr wrthodai bob cysuron Mat. 2. 18.
Ar hyd y nos.

Gyrai Pilat wyr mewn arfau Mat. 27. 65, 66.
Ar hyd y nos,
Bedd ein Harglwydd gwylient hwythau
Ar hyd y nos,
Ond y trydydd dydd cyfododd, Act. 10. 40.
I'w ddisgyblion ymddangosodd,
Am y gwylwyr ni ofalodd
Ar hyd y nos.

Llidiog oedd ysgrifenyddion
Ar hyd y nos:
Rhwymo wnaent yr Apostolion Act. 5. 18.
Ar hyd y nos;
Ond o'r nef daeth angel hawddgar,
Ac er llid yr hil ddialgar,
Allan dug y rhai'n o'r carchar Act. 5. 19.
Ar hyd y nos.

Tra 'r oedd Pedr yn rhwym yn aros
Ar hyd y nos,
Llefai 'r eglwys yn ei achos Act. 12. 5.
Ar hyd y nos;
I'r ddu gell daeth angel ato
Allan dygodd ef oddi yno,
Megis heb yn wybod iddo Act. 12. 9.
Ar hyd y nos.

Paul a Silas a ber ganent Act. 16. 25.
Ar hyd y nos,
Mawl i Dduw mewn carchar seinient
Ar hyd y nos;
Wedi i'r ceidwad dost ddychrynu,
Troent ei wyneb at Grist Iesu, Act. 16. 31.
A bedyddient ef a'i deulu Act. 16. 33.
Ar hyd y nos.

Cedwir Sïon rhag ei drygu
Ar hyd y nos,
Bydd Duw 'n fur o dân i'w chylchu Zach. 2. 5.
Ar hyd y nos;
Cwmwl niwl y dydd fydd drosti,
Rhag i'r gwres wneyd niwed iddi;
Llewyrch fflamllyd dân fydd arni Esa. 4. 5.
Ar hyd y nos.

Yn nhy 'r Arglwydd da cael trigo
Ar hyd y nos:
Gwyn eu byd sy'n sefyll ynddo Ps. 134. 1.
Ar hyd y nos;
Mewn tywyllwch fel y fagddu,
Geill Duw Sïon ei dyddanu;
Mae e'n rhoi achosion canu Job 35. 10.
Ar hyd y nos.

Yn y deml arosai Anna Luc 2. 37.
Ar hyd y nos,
Ceisiai Simeon y Messïa
Ar hyd y nos:
Ac o'r diwedd caent yr heddwch,
Gobaith Israel a'i ddyddanwch,
Wedi disgwyl mewn tywyllwch
Ar hyd y nos:

Ymofynaf am f' anwylyd
Ar hyd y nos:
Heb fy Iesu 'rwyf mewn tristyd
Ar hyd y nos:
Chwilio wnaf yr holl heolydd, Can. 3. 2.
Trwyddynt âf o gwr bwygilydd;
Nes ei gael ni byddaf lonydd
Ar hyd y nos.

Lamp y cyfiawn ni ddiffodda Mat. 25. 8, 9.
Ar hyd y nos:
Ac o'r uniawn ffordd ni wyra Ps. 37. 31.
Ar hyd y nos:
Ger ei fron mae Duw yn wastod; Ps. 16. 8.
Rhodia'r dydd yn ei gyfamod, Gal. 6. 16.
A'i lân-ddeddf yw ei fyfyrdod Ps. 1. 2.
Ar hyd y nos.

Yr Ion cadarn fydd dy darian
Ar hyd y nos:
Nid yw 'n huno, nac yn hepian Ps. 121. 4.
Ar hyd y nos:
Holl alluog yw dy geidwad;
Haul y dydd ni'th dery'n anfad,
Na dylanwad oer y lleuad Ps. 121. 4.
Ar hyd y nos.

Mewn blin drafferth y mae'r ynfyd Preg. 4. 8.
Ar hyd y nos:
Ond rhydd Duw hun i'w anwylyd Ps. 127. 2.
Ar hyd y nos:
Pan ddeffröwyf seiniaf foliant;
Deddfau'r Ion fy nghysur fyddant,
A'm harenau hwy a'm dysgant Ps. 16. 7.
Ar hyd y nos.

Mae fy Iesu'n ddigyfnewid
Ar hyd y nos:
Mi ddadleuaf ei addewid
Ar hyd y nos:
Fry mae 'nghartref clyd a'm trysor;
Ac wrth hwylio dros y cefnfor,
Deil fy ngobaith megys angor Heb. 6. 19.
Ar hyd y nos.

Er i'r garw fôr derfysgu
Ar hyd y nos;
Yn y llong câf gwm'ni'r Iesu
Ar hyd y nos;
Gydag ef cadwedig fyddaf 1 Sam. 22. 23.
Dan ei gysgod mi arhosaf, Hos. 14. 7.
Ac ar ei ffyddlondeb pwysaf 1 Thes. 5. 24.
Ar hyd y nos;

Mewn gorthrymder byd aflonydd
Ar hyd y nos;
Fe wyr Iesu am ein tywydd
Ar hyd y nos;
Hwn a ddichon gynorthwyo
Y rhai'n awr sy'n cael eu temtio: Heb. 2. 18.
Bu ei hunan yn gweddio Luc 6. 12.
Ar hyd y nos.

Nid yw cerydd i ni'n hyfryd Heb. 12. 11.
Ar hyd y nos·
Ond geill Duw ddwyn lles o'n hadfyd
Ar hyd y nos:
Os bydd ynom dduwiol anian,
O bob ffwrn fel aur de'wn allan, Job 23. 10.
Er bod dan gernodiau Satan
Ar hyd y nos:

Mi ddisgwyliaf hafddydd golau
Ar hyd y nos:
Fel y gwylwyr am y borau, Ps. 130. 6.
Ar hyd y nos:
Mae'n rhaid ini wrth amynedd: Heb. 10. 36.
Yn y bore bydd gorfoledd, Ps. 30. 5.
Er bod dymor mewn anhunedd
Ar hyd y nos:

Fel na'm hofner gan yr angau
Ar hyd y nos:
Llechu wnaf yn nghol fy Meichiau
Ar hyd y nos:
Nes y caffwyf gorff pur gymwys
I ail uno'r enaid gwiwlwys,
Yn y bedd caf dawel orphwys Job 3. 18.
Ar hyd y nos:

Byth ni raid i Sion ofni
Ar hyd y nos;
Ffrydiau'r afon gaiff i'w lloni Ps. 46. 4.
Ar hyd y nos;
Duw ei hun a'i cynorthwya, Ps. 46. 5.
Er pob tywydd nid ysgoga;
Geill hi ganu Haleluia
Ar hyd y nos.

Er i'r ddaear ymderfysgu
Ar hyd y nos.
Dinas Duw a ddeil heb grynu
Ar hyd y nos:
A phe treiglid y mynyddoedd,
I waelodion dyfnion foroedd, Ps. 46. 2.
Hon a saif ar graig yr oesoedd Mat. 16. 18.
Ar hyd y nos.

Chwant sydd arnaf weled Iesu Phil. 1. 23.
Ar hyd y nos:
Am f'anwylyd rwy'n hiraethu
Ar hyd y nos:
Yn y man câf lanio'n llawen
O'r ddu oeraidd hen ddaearen,
Draw i'r ddinas drwy'r Iorddonen.
Lle ni bydd nos. Dat. 21. 25.

*Rhybudd i'r Anystyriol.*

O ynfydion, dwys ystyriwch;
Beth am y nos: Esa. 5. 11.
Fel y gwylwyr am y boreu,
Hir fydd y nos: Preg. 11. 7.
Fe dry chwerthin i chwi'n wylo, Luc 6. 26.
Mewn llyn tân bydd tost boenydio,
Ac ni bydd gorphwysdra yno
Ar hyd y nos, Dat. 14. 11.

---

**BETHESDA:**
ARGRAFFWYD GAN R. JONES.